WGOS

# Cylchlythyr

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*4ydd argraffiad, Medi 2023*

## Croeso



Bydd Cylchlythyr WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… **rydym yma i'ch cefnogi chi.**

Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #4 yn ffocysu ar y canlynol:

### Yr hyfforddiant sydd angen i chi ei gwblhau ar gyfer y contract WGOS newydd a ble gallwch chi gael mynediad at yr hyfforddiant hwnnw.

**Fel rhan o'r contract newydd, rhaid i bob ymarferydd gofal llygaid sy'n cyflawni gwasanaeth WGOS (optometryddion ac optegwyr cyflenwi) a staff y practis sy'n cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gwblhau pedwar cyflwyniad gorfodol newydd.** Mae'r cyflwyniadau hyn wedi'u safoni ar gyfer holl gontractwyr y GIG megis deintyddion a fferyllwyr. Mae mwyafrif yr optometryddion yng Nghymru (95%) eisoes wedi cwblhau eu hachrediadau Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (EHEW) ac felly, ar gyfer y rhan fwyaf o optometryddion, y gofynion yw cwblhau'r pedwar cyflwyniad gorfodol newydd yn unig.

Mae'r cyflwyniadau ar gael gan AaGIC, trwy ei blatfform dysgu ar-lein sydd Newydd ei lansio: **Y Tŷ Dysgu.**

Y cam cyntaf yw Cofrestru ar gyfer 'Y Tŷ Dysgu'. I gael cyfarwyddiadau, defnyddiwch y ddogfen pdf 'Y broses gofrestru ar gyfer Y Tŷ Dysgu 2023 - Optometreg' a anfonwyd atoch gyda'r cylchlythyr hwn neu drwy'r ddolen yn adran Cylchlythyrau gwefan WGOS:

Cylchlythyrau WGOS - GIG Cymru

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch gael mynediad at y cyflwyniadau. Am ganllaw ar sut i lywio o gwmpas gwefan 'Y Tŷ Dysgu', gweler y ffeil, 'Canllaw defnyddiwr TERFYNOL', a anfonwyd gyda'r cylchlythyr hwn neu drwy'r ddolen uchod.

# Cwestiynau allweddol

## Fel optometrydd, oes angen i mi fod wedi cwblhau hyfforddiant EHEW yn ogystal â chwblhau'r cyflwyniadau newydd hyn?

- Oes Mae'r contract WGOS newydd yn ymgorffori elfennau o'r hen wasanaeth EHEW, felly, rhaid i unrhyw optometrydd (neu optegydd lensys cyffwrdd (CLO) sy'n cynnig EHEW acíwt blaen y llygad) gael ei hyfforddi i safon EHEW o leiaf. Os ydych yn optometrydd sydd ddim wedi cyflawni achrediad EHEW eisoes, rhaid i chi gysylltu ag AaGIC ar unwaith, fel y gellir cwblhau hyn yn ogystal â chwblhau'r pedwar cyflwyniad newydd ychwanegol.

## Oes rhaid i mi gwblhau'r hyfforddiant newydd?

- Oes, fel rhan o'r rheoliadau newydd, rhaid i optometryddion sy'n darparu gwasanaeth WGOS gwblhau'r hyfforddiant.

## Pwy arall sydd angen cwblhau'r hyfforddiant?

- Rhaid i unrhyw weithwyr sy'n cyflawni gwasanaethau WGOS, ac unrhyw staff a gyflogir neu sy'n ymwneud â chynorthwyo i gyflawni gwasanaethau WGOS, gwblhau'r hyfforddiant. Mae hwn yn ofyniad fel y'i nodir yn rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru.

## Pam mae'n rhaid i mi gwblhau rhagor o hyfforddiant os ydw i eisoes wedi fy achredu gan EHEW neu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru?

- Mae contract WGOS yn cynnwys elfen iechyd gyfannol yn seiliedig ar egwyddorion Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) yn ogystal ag ymgorffori egwyddorion gwella ansawdd. Bydd diweddariad hefyd ynghylch hyfforddiant offer miniog a chyflwyniad am y contract newydd. Mae'r cyflwyniadau hyn wedi'u safoni ar gyfer holl gontractwyr y GIG ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wasanaethau optometreg fel eu bod yn yr un sefyllfa â darparwyr gofal iechyd eraill megis deintyddion, meddygon teulu a fferyllwyr sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae'r hyfforddiant gwella ansawdd a Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif wedi'u safoni ar gyfer pob darparwr gofal iechyd yng Nghymru.



## Beth yw gofynion y pedwar cyflwyniad gorfodol a pha mor hir ydyn nhw?

Ni fydd yr un cyflwyniad yn cymryd mwy na 60 munud i'w cwblhau. Mae 10 cwestiwn amlddewis i'w cwblhau ar gyfer pob cyflwyniad y mae'n rhaid ei basio (marc pasio 60%). Mae angen i chi basio'r cwestiynau amlddewis er mwyn i bob un o'r pedwar cyflwyniad fod yn barod ar gyfer y contract newydd. Byddwch yn gallu gweld tystysgrif DPP ar ôl cwblhau pob cyflwyniad a chwestiwn amlddewis cysylltiedig. Byddwch yn cael bathodyn cyffredinol gan y cwrs ar ôl cwblhau'r holl elfennau ar wefan ar-lein Y Tŷ Dysgu.

Y cyflwyniadau yw:

- **WGOS**
  Mae'n esbonio sut mae WGOS wedi'i strwythuro a sut y gellir ei gyflawni.
- **Gwneud I Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)**
  Mae'n esbonio sut y gellir defnyddio sgyrsiau mewn ymarfer optometreg i gefnogi cleifion i wneud dewisiadau iddynt fyw'n iach.
- **Rheoli Atal Heintiau a Diogelwch Offer Miniog**
  Mae'n esbonio sut y gallwch sicrhau gofal diogel i gleifion trwy ddefnyddio rheolaeth atal heintiau a delio'n ddiogel ag offer miniog yn ymarferol.
- **Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd-Hyfforddiant Sylfeini Gwella**
  Mae'n esbonio sut y gellir defnyddio gwella ansawdd i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth i sicrhau bod gofal diogel o ansawdd yn cael ei ddarparu i gleifion.



## Pwy sy'n gyfrifol am bawb sydd angen/sydd wedi cwblhau'r cyflwyniadau?

- Bydd angen i gontractwyr (cyflogwyr) hysbysu PCGC bod yr holl staff priodol wedi cwblhau'r modiwlau drwy ffurflen sydd ar gael gan PCGC.

## Oes angen i mi wneud unrhyw beth arall os ydw i wedi cael fy achredu gan Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru?

- Nac oes, bydd angen i chi gwblhau'r pedwar cyflwyniad fel y'i nodir ond dim byd arall. Bydd gohebiaeth gan y Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn manylu ar unrhyw ofynion pellach os bydd eu hangen.

# Crynodeb

## Beth?

Bydd yn orfodol i bob optometrydd ac OMP sy'n cynnig gwasanaethau WGOS gael eu hachredu gan EHEW. RHAID hefyd i bob optometrydd, OMP, optegydd cyflenwi ac unrhyw staff a gyflogir neu a gymerir ymlaen i gynorthwyo â pherfformiad gwasanaethau WGOS gwblhau'r pedwar cyflwyniad ychwanegol gorfodol; MECC, IQT, IPC & Sharps a WGOS.

## Pryd?

Disgwylir i chi lynu at newidiadau WGOS o ganol mis Hydref pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym. Bydd rhaid i gyflogwyr ddatgan bod eu holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol erbyn hynny.

## Sut?

Os ydych am gael eich achredu gan EHEW, cysylltwch ag

HEIW.Optometry@wales.nhs.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Dylid neilltuo chwe wythnos i allu cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant.

# Cadwch mewn cysylltiad

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn: https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu

**Neu;**

Neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Gellir dod o hyd i gylchlythyrau blaenorol yn:
https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/

